Animal & Plant Health Agency

# Yr Uned Wenyn Genedlaethol

## Hylendid a Chwarantin mewn Gwenynfeydd

### Ionawr 2022

**Gall arferion hylendid da mewn gwenynfeydd, a defnyddio cwarantin ar gyfer gwenyn a chyfarpar, gael effaith sylweddol ar leihau lefelau heintio ac ailheintio â chlefydau. Dylai pob gwenynwr ddilyn yr arferion hyn.**

Anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd yw gwenyn, felly dylai pob gwenynwr lynu wrth arferion hylendid syml er mwyn atal mêl rhag cael ei halogi ac atal clefydau rhag lledaenu rhwng nythfeydd. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys pwyntiau allweddol i'w hystyried a fydd yn gwella eich arferion gwenyna.

## Hylendid mewn gwenynfeydd

Er mwyn atal clefydau rhag lledaenu rhwng nythfeydd, dylid gosod cychod gwenyn â'r mynedfeydd yn wynebu gwahanol gyfeiriadau er mwyn lleihau drifftio. Dylid osgoi gosod cychod gwenyn mewn llinellau syth a chael gormod o nythfeydd mewn un lle.

Dylid rhoi mesurau ar waith i atal achosion o ddwyn. Dylid lleihau nifer y mynedfeydd ar adegau allweddol, er enghraifft ar ôl y prif lif mêl neu ar adeg bwydo. Dylid rhoi sylw arbennig i nythfeydd bach na allant amddiffyn mynedfa fwy o bosibl. Dylid selio unrhyw nythfeydd marw a'u tynnu allan o'r wenynfa – wedyn gellir eu glanhau. Gweler Taflen Ffeithiau'r Uned Wenyn Genedlaethol (UWG), 'Glanhau a Sterileiddio Cychod Gwenyn', sydd ar gael ar BeeBase.

### Offer cwch gwenyn

Golchwch eich offeryn cwch gwenyn, eich mygwr a'ch menig (gweler isod) rhwng archwiliadau o nythfeydd, a hynny mewn hydoddiant soda golchi cryf. Defnyddiwch gymhareb o 1kg o soda golchi i 4.5 litr o ddŵr. Bydd ychwanegu diferyn o hylif golchi llestri at yr hydoddiant yn hwyluso'r glanhau, a defnyddio sgwriwr sosbenni dur gwrthstaen hefyd. Er bod gwenyn yn defnyddio priodweddau gwrthfacterol glud gwenyn, mae'r rhain yn gyfyngedig, ac mae'n hawdd i lud gwenyn ddod yn ffordd i bathogenau ledaenu i nythfeydd eraill, yn enwedig yn ystod archwiliadau. Ar y crynodiadau uchod, bydd soda golchi yn hydoddi glud gwenyn, ac mae glanhau cyfarpar yn drylwyr fel hyn yn ffordd hawdd a rhad o leihau'r risg o drosglwyddo clefydau.

### Menig

Os byddwch yn gwisgo menig i archwilio gwenyn, dylech osgoi rhai lledr am ei bod yn anodd eu cadw'n lân. Gallant hefyd fynd yn wydn, sy'n ei gwneud hi'n anodd codi fframiau, gan arwain yn aml at ysgwyd fframiau a gwasgu gwenyn.

Dewis gwell yw defnyddio menig golchi llestri neu fenig nitril untro. Gellir eu glanhau mewn hydoddiant soda golchi rhwng archwiliadau o nythfeydd, ynghyd â'ch offeryn cwch gwenyn. Hefyd, gellir eu newid rhwng gwenynfeydd, felly maent yn ffordd dda o reoli rhwystrau. Maent yn rhoi 'cyffyrddiad' gwell ac yn peri llai o broblem o ran ysgwyd y gwenyn, sy'n golygu nad yw'r gwenyn dan gymaint o straen.

### Mygwr

Mae'n anodd glanhau'r rhain, ond nid yw'r faril yn broblem am ei fod yn mynd yn ddigon poeth i ladd pathogenau clefydau. Gellir sgrwbio'r fegin â hydoddiant soda golchi, unwaith eto rhwng gwenynfeydd o leiaf. Hefyd, gellir gorchuddio'r fegin â gorchuddion esgidiau/cawod untro er mwyn helpu bioddiogelwch.

### Gwisg gwenynwr

Er mai isel yw'r risg y gall gwisg gwenynwr frwnt ledaenu clefydau, dylid ei golchi'n rheolaidd, yn enwedig os caiff mêl ei golli ar y wisg. Bydd hyn hefyd yn cael gwared ar y fferomon a adewir ar ôl i wenyn bigo'r defnydd, gan leihau'r risg o annog mwy o bigiadau ar eich ymweliad nesaf.

Dilynwch y cyfarwyddiadau golchi sydd ynghlwm wrth y dilledyn bob amser. I amddiffyn y penrwyd, dylid ei blygu i mewn i gorff y wisg ac yna ei gau i mewn â'r sip, os mai'r math sy'n debyg i wisg cleddyfaeth sydd gennych. Er mwyn hwyluso'r glanhau, gellir ychwanegu soda golchi at yr hydoddiant neu socian y wisg ynddo ymlaen llaw.

### Newid hen grwybrau

Mae hen grwybrau magu yn cynnwys llwythi pathogen sy'n cynyddu dros amser ac wrth i'r crwybrau gael eu defnyddio. Bydd gosod sylfaen newydd yn lle hen grwybr yn cael effaith sylweddol ar leihau achosion o glefydau.

Mae crwybrau llofft fêl hefyd yn cynnwys llwythi pathogen, ond nid i'r un graddau. O ganlyniad i hynny, dylid eu cyfnewid yn rheolaidd, ond nid o reidrwydd mor aml â chrwybrau magu, oni bai eu bod wedi cynnwys mag neu fod problem sylweddol o ran clefydau. Mantais arall yw bod crwybr llofft fêl newydd yn aml yn dal mwy o fêl na hen grwybr. Hyd yn oed os nad ydynt erioed wedi cael eu defnyddio i fagu, gall heb grwybr golli lle storio drwy gael ei ddifrodi wrth dynnu mêl allan, neu drwy fynd yn llawn paill neu fêl wedi crisialeiddio.

Mae manylion y broses o gyfnewid crwybrau i'w gweld mewn gwerslyfrau ac yn Nhaflen Ffeithiau'r Uned Wenyn Genedlaethol (UWG), '*Replacing Old Brood Comb*', sydd i'w gweld ar BeeBase.

### Blychau cwch gwenyn a rhannau o gychod gwenyn

Dylid glanhau blychau magu a llofftydd mêl yn rheolaidd. Dylid crafu glud gwenyn a chŵyr oddi ar yr arwynebau.

Gellir sterileiddio blychau pren drwy losgi'r tu mewn yn ysgafn â lamp losgi. Gellir sterileiddio blychau polystyren a rhannau plastig o gychod gwenyn drwy eu soddi mewn hydoddiant sodiwm hypoclorit 0.5% (sydd i'w gael mewn cannydd cartref) am 20 munud ar ôl iddynt gael eu crafu a'u sgrwbio i gael gwared ar gymaint o weddillion arwyneb â phosibl. Mae rhai gwenynwyr yn defnyddio hydoddiant soda golchi i lanhau blychau a rhannau o gychod gwenyn am fod hydoddiant cryf yn helpu i hydoddi glud gwenyn.

Gweler Taflen Ffeithiau'r UWG, 'Glanhau a Sterileiddio Cychod Gwenyn', sydd ar gael ar BeeBase.

### Halogi mêl

Ni ddylai llofftydd mêl byth gael eu rhoi yn syth ar y ddaear. Yn lle hynny, dylid eu gosod ar do wedi'i droi â'i ben i lawr neu ar stand addas. Y rheswm dros hyn yw'r risg o halogi'r mêl o sborau botwlinwm yn y pridd.

Wrth ddefnyddio meddyginiaethau neu driniaethau mewn nythfeydd gwenyn, dim ond cynhyrchion cymeradwy y dylid eu defnyddio. Unwaith eto, i osgoi halogi, dylid dilyn y cyfarwyddiadau ar y label bob amser.

Yn gyffredinol, nid ddylid rhoi triniaethau ar waith os oes llofftydd mêl ar y nythfa. Gweler Taflen Ffeithiau'r UWG, '*Bee Medicines*', sydd ar gael ar BeeBase.

## Arferion cwarantin

### Cyfarpar

Pan fydd clefyd yn broblem neu pan fydd risg uchel yn y wenynfa, bydd cadw cyfarpar megis atalyddion brenhines, llofftydd mêl, blychau magu a fframiau/crwybrau ac ati a gaiff eu defnyddio ar gyfer un wenynfa yn unig yn cynnig manteision sylweddol. Mae hyn yn ffordd dda o reoli rhwystrau am ei fod yn helpu i atal clefydau rhag lledaenu a chael eu cyflwyno i nythfeydd eraill.

### Crwybrau magu

Dylid osgoi eu symud lle bo modd. Mae symud crwybrau magu rhwng nythfeydd yn peri risg uchel o ledaenu clefydau. Mae'n un o brif achosion cynnydd mewn clefydau pan fydd y gwenynwr yn methu ag adnabod arwyddion o glefyd, sy'n gallu bod yn arbennig o anodd ar gamau cynnar. Bydd llawer o wenynwyr yn symud fframiau o wyau i gadarnhau bod brenhines mewn nythfa. Os gwneir hyn, mae'n well cadw cofnod ysgrifenedig, neu gyfnewid mag gyda'r cwch gwenyn cyfagos yn unig. Mae cyfnewid crwybrau rhwng safleoedd gwenynfeydd yn peri risg uchel o ledaenu clefydau o un i'r llall.

**Crwybrau llofft fêl**

Dylid osgoi eu symud lle bo modd. Mae crwybrau llofft fêl yn peri risg o ledaenu clefydau. Yn ddelfrydol, dim ond ar un nythfa benodol y dylid defnyddio crwybr. Mae'n hawdd nodi rhif y nythfa ar y llofft fêl a barrau uchaf y fframiau gan ddefnyddio marciwr (fel yr un a ddefnyddir i farcio breninesau). Mae hyn yn sicrhau y gall y gwenynwr gadw cwarantin i'r nythfa ar gyfer llofftydd mêl. Un system lai effeithiol yw sicrhau mai dim ond mewn un wenynfa y caiff llofftydd mêl a chrwybrau eu defnyddio, sef 'cwarantin mewn gwenynfa'. Ceir tystiolaeth o'r DU a thu hwnt sy'n dangos y gall y mesurau hyn leihau nifer achosion a lledaeniad clefydau yn sylweddol.

## Gwenynfeydd Cwarantin

Dylid mynd â heidiau o ffynhonnell anhysbys i wenynfa 'gwarantin' ar wahân a'u rhoi mewn cwch ar sylfaen mewn cyfarpar glân. Ar ôl 24 awr, gellir eu bwydo, os bydd angen, gan ddefnyddio porthwyr wedi'u sterileiddio. Wedyn dylid caniatáu iddynt symud drwy ddau gylch magu, h.y. chwe wythnos. Cadwch olwg ar y mag i sicrhau nad oes arwyddion o glefyd i'w gweld, cyn cyflwyno'r nythfa i wenynfa sefydledig.

**National Bee Unit**
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ
Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk